**Hysbyseb Recriwtio**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cynorthwyydd Cyfleusterau Lefel 3** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Cyfleusterau a gwasanaethau technegol - Cymorth Busnes** |

Ydych chi'n frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddylanwadu ar brosesau busnes a'u gwella, a rhoi cymorth i dimau prysur? A ydych yn gallu blaenoriaethu tasgau, bod yn arloesol ac amldasgio bob dydd? Ydych chi'n mwynhau gweithio gartref a bod yn rhan o amgylchedd swyddfa prysur? Os felly, hoffem glywed gennych.

Mae Cymorth Busnes yn dîm deinamig sy'n cefnogi adrannau amrywiol ar draws yr awdurdod lleol. Rydym yn darparu gwasanaeth cymorth gweinyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys rheoli ceisiadau am wasanaeth, ymdrin â galwadau sy'n dod i mewn, trefnu llif gwaith, a rheoli prosesau mewnol.

Fel cynorthwyydd cyfleusterau, bydd disgwyl i chi gyflawni rhai neu bob un o'r tasgau canlynol (yn dibynnu ar ofynion yr adeilad):

- Cyflawni dyletswyddau derbynfa, gan gynnwys croesawu ymwelwyr i'r adeilad a delio ag ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd.
- Delio â galwadau ac ymholiadau sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth o amrywiaeth o ffynonellau, cynnig cyngor a chymorth, a chyfeirio lle bo angen.
- Delio ag archebion ystafelloedd trwy swyddogaeth archebu ystafell electronig. Gosod offer a chynllun priodol yn yr ystafelloedd cyfarfod, gan gynnwys llestri / cyllyll a ffyrc a chyflenwadau lluniaeth. Clirio ystafelloedd ar ôl digwyddiadau / cyfarfodydd.
- Defnyddio amrywiaeth o systemau ar draws yr awdurdod – gan gynnwys post hybrid, sianeli Teams a datrysiadau Microsoft.

Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sydd â'r sgiliau, y profiad a'r hyblygrwydd i'w galluogi i flaenoriaethu a rheoli sawl tasg o fewn amgylchedd prysur a chyflym. Mae sgiliau TG eithriadol, gan gynnwys gweithio gydag MS 365, Office a Teams, yn briodoleddau hanfodol.

Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy, felly mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol. Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

**Eich cais**

Mae'n hanfodol eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf 'hanfodol' a restrir yn y fanyleb person atodedig i sicrhau cyfweliad.

I gael gwybodaeth am ailgyflogi cyn-weithwyr, a chymryd cyn-weithwyr ymlaen, cyfeiriwch at bolisi cyflog y cyngor.

**Eisiau gofyn cwestiwn i ni?**

Os ydych yn chwilio am her gyffrous ac yn meddu ar y cymwysterau, y profiad a'r priodoleddau yr ydym yn chwilio amdanynt, cysylltwch â Victoria Daniels ar 01495 369501 am sgwrs anffurfiol.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau:** | 17th Ebrill 2025 |
| **Dyddiad y Cyfweliad:** | **29th Ebrill 2025** |